

Bwrdd Llysgenhadon Ifanc

Action for Children

Gweithredu dros Blant

# Gwybodaet
# i bobl ifanc

**Diddordeb mewn ymuno â'n Bwrdd Llysgenhadon Ifanc newydd? Anhygoel!**

Rydyn ni wedi creu'r daflen wybodaeth hon gyda'r prif bethau y mae angen i chi eu gwybod. Ond os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill, anfonwch e-bost atom ni drwy **youthvoice@actionforchildren.org.uk** neu anfonwch neges at **Sarah** (Swyddog Cyfranogi) ar **07843 344 619**.

## 1. Os ydw i'n ymuno â'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc, beth fydda i'n ei wneud?

**Drwy fod yn Llysgennad Ifanc, mi fyddwch chi yn...**

- Cwrdd â phobl ifanc o'r un anian obob cwr o'r DU, sy'n dymuno gwneud gwahaniaeth.
- Rhannu eich barn a'ch syniadau am faterion sy'n bwysig i chi mewn ffordd gyfeillgar ac anfeirniadol.
- Cynrychioli lleisiau pobl ifanc mewn cyfarfodydd gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ymddiriedolwyr, staff a gwleidyddion.
- Siarad â phlant a phobl ifanc eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau, er mwyn i ni wybod beth sy'n gweithio'n dda a beth allwn ni ei wneud yn well.
- Cynrychioli Gweithredu dros Blant mewn digwyddiadau mawr, fel galas, seremonïau gwobrwyo a llawer mwy!
- Ein helpu ni i recriwtio staff newydd drwy gymryd rhan mewn paneli cyfweld, a'r panel 'Dragons Den', lle gallwch chi helpu i benderfynu ble mae'r arian yn mynd ar gyfer prosiectau newydd.
- Datblygu eich sgiliau a'ch CV gyda hyfforddiant sy'n rhad ac am ddim ar bynciau fel siarad cyhoeddus, ymgyrchu ac ymchwil.
- Cael y cyfle i deithio ar hyd a lled y wlad, cymryd rhan mewn prosiectau, digwyddiadau ac ymgyrchoedd hwyliog, a llawer mwy.

## 2. A yw'n rhad ac am ddim i ymuno?

Ydy! Mae hwn yn gyfle gwirfoddol, felly does dim cost i gymryd rhan.

## 3. Ydw i angen profiad blaenorol o gymryd rhan mewn grŵp fel hwn?

Does dim angen profiad. Byddwn yn eich cefnogi i ddysgu wrth i chi fynd ymlaen a byddwn yn dysgu gennych er mwyn gwneud y grŵp cystal â phosib.

# Bwrdd Llysgenhadon Ifanc

## 4. Pa mor aml ydyn ni'n cwrdd, ble a phryd?



Byddwn yn cwrdd bob mis, am awr naill ai dros Zoom neu Teams. Byddwn yn cadarnhau amser y cyfarfodydd a'r platfform digidol ar ôl i ni recriwtio ein holl aelodau newydd.


## 5. A fyddwn ni'n cwrdd wyneb yn wyneb?

Byddwn! Bydd cyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb, megis yn y digwyddiadau llais yr ifanc y byddwn yn eu cynllunio gyda'n gilydd. Byddwn yn talu am gostau teithio, costau llety a chostau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Byddwn yn dweud wrthych chi pa gostau y gallwn ni eu talu ymlaen llaw.

## 6. A fydd cyfleoedd eraill i gymryd rhan ynddynt y tu allan i'r cyfarfodydd misol?

Heb os. Efallai y bydd cyfleoedd i weithio ar brosiectau llai ar draws y sefydliad. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod hyn ar ddiwrnod ac amser sy'n gyfleus i chi, ac yn aml byddwn yn cynnig talebau rhodd am eich amser.

## 7. Pam mae aelodau'r grŵp o wahanol oedran?



Mae gan wahanol oedrannau wahanol safbwyntiau, a dyma hanfod y grŵp.

Mae Gweithredu dros Blant yn cefnogi planta phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, felly rydyn ni eisiau clywed gan bobl ifanc o bob oed. Ni waeth beth yw'r oedran, gall pob un ohonom ddysgu gan ein gilydd a chefnogi ein gilydd.

## 8. Ga' i adael y grŵp os dydw i ddim eisiau bod yn rhan o'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc mwyach?

Wrth gwrs. Gwirfoddol ydy'r grŵp, felly os ydych chi'n teimlo nad yw'n iawn i chi, rhowch wybod i ni.

I aelodau sy'n teimlo bod y grŵp yn addas iddyn nhw, **gofynnwn i chi ymrwymo i ddwy flynedd rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2025.** Mae'n bwysig mynychu'r cyfarfod, felly os na allwch chi fod yno, rhowch wybod i ni ymlaen llaw.

## 9. Sut fyddaf yn gwybod pa wahaniaeth mae fy safbwyntiau'n ei wneud?

Byddwch bob amser yn cael y gwybod sut mae eich safbwyntiau wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys fideos gan staff neu'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi. Neu drwy gyfleoedd i ymweld â'n gwasanaethau neu gael gwybodaeth ysgrifenedig.

## 10. Pwy sy'n gyfrifol am y grŵp?



Mae'r grŵp yn cael ei arwain ar y cyd gan Francesca, ein Harweinydd Cyfranogiad a gan Sarah, ein Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu, yn ogystal â phob aelod o'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc.

Gallwch fynd at y Tîm Cyfranogi i gael cyngor, arweiniad a chymorth drwy gydol y broses.

## 11. Byddaf angen help i gymryd rhan yn y cyfarfodydd, ydy hynny'n bosib?

Wrth gwrs. Rhaid i'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc fod yn lle diogel, hygyrch a chynhwysol i bawb gymryd rhan. Os oes gennych chi anabledd neu os oes angen addasiadau rhesymol arnoch i'ch cefnogi yn y rôl hon, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu helpu.

## 12. Beth os nad ydw i'n cael lle ar y Bwrdd Llysgenhadon Ifanc?


Yn anffodus, nid yw'n bosibl cynnig lle i bawb ar y Bwrdd, gan mai dim ond 15 lle sydd gennym ar gael. Os nad ydych chi'n cael eich dewis y tymor hwn, gallwn eich ychwanegu at 'hwb rhithiol' a byddwn yn dal i gysylltu â chi i gael y cyfle i ddweud eich dweud.

## 13. Beth os na allaf lenwi'r ffurflen gais?

Os ydych chi'n cael trafferth neu eisiau help i wneud cais, peidiwch â phoeni. Cysylltwch â'n tîm drwy **youthvoice@actionforchildren.org.uk**

Os ydych chi eisiau gwneud cais mewn ffordd wahanol, e.e fideo neu nodyn llais, anfonwch e-bost atom, a byddwn yn anfon rhestr o'r cwestiynau.

**Byddwn yn trin pob cais yr un fath, ni waeth sut y cânt eu cyflwyno.**



## 14. Pryd ddylwn i wneud cais a beth fydd yn digwydd nesaf?

Gallwch chi wneud cais ar y wefan **actionforchildren.uk/youthvoice**, erbyn dydd Llun 13 Chwefror 2023.

Byddwn yn cysylltu â chi a'ch rhieni/gofalwyr erbyn **dydd Mercher 22 Chwefror 2023** i ddweud a ydych chi wedi cyrraedd y rhestr fer i ddod i weithgaredd grŵp anffurfiol a hwyliog ar-lein rhwng **10am ac 11am ddydd Sadwrn 4 Mawrth 2023**.

Rhifau elusen gofrestredig 1097940/SC038092. Rhif y Cwmni 04764232. © Gweithredu dros Blant 2022. 1891